Datganiad Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Gan weithredu fel **Cwmni2**, rwyf yn unig gyflogai/Cyfarwyddwr ac felly nid ydwyf yn cyflogi unrhyw aelod arall o staff, fodd bynnag wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog i unigolion a sefydliadau eraill, yr wyf yn sicrhau fy mod yn trin pob cleient a darpar gleient gyda pharch, waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau.

Mae'r datganiad hwn yn nodi fy amcanion, gwerthoedd ac arferion o ran materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg fel yr unig gyflogai/Cyfarwyddwr.

Fy Ymrwymiad

Rwyf yn cydnabod ac yn deall bod gan bobl wahanol ofynion yn seiliedig ar eu hamgylchiadau a'u cefndir unigol.

Byddaf yn trin fy holl gleientiaid gyda pharch, waeth beth yw eu hamgylchiadau ailbennu rhywedd, anabledd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, daliadau crefyddol neu ddiffyg cred, hawliau dynol, materion beichiogrwydd a mamolaeth, oed, statws priodasol, rhyw, tarddiad ethnig, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, ac unrhyw gyfrifoldeb sydd ganddynt ar gyfer dibynyddion.

Nodau

Rwyf wedi ymrwymo i'r egwyddor o gydraddoldeb canlyniad wrth ddarparu gwasanaethau i bobl eraill, ac yn sicrhau bod fy ngwaith yn cefnogi unigolion a sefydliadau gyda'u gwaith er mwyn cyflawni canlyniadau teg a chyfiawn, sy'n rhydd o wahaniaethu.

Yn Bersonol, Yn Ymarferol

- Rwy'n osgoi gwahaniaethu bwriadol ar unrhyw sail;
- Rwy'n monitro fy iaith fy hun, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg, a fy ymddygiad di-eiriau, am wahaniaethu anfwriadol.
- Rwy'n ymgymryd â datblygiad personol er mwyn cynyddu fy ngwybodaeth mewn perthynas â materion Cydraddoldeb a'r Gymraeg;
- Byddaf yn herio, mewn ffordd gefnogol, ddiplomyddol ac adeiladol, unrhyw ddarparwr gwasanaethau, cleient neu gyfranogwr cwrs hyfforddiant, lle'r wyf yn teimlo'u bod efallai yn defnyddio iaith neu ymddygiad gwahaniaethol;

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae ar gael fel pdf ar wefan y cwmni a gellir ei ddarparu i'r holl gleientiaid a darpar gleientiaid fel rhan o unrhyw gyflwyniad contract/tendr. Mae'n destun adolygiad parhaus ac yn cael ei diweddaru a'i ail-gyhoeddi ar-lein er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn briodol (nodir y dyddiad a'r fersiwn isod).